# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Siambr Hywel - Tŷ Hywel**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 11 Mehefin 2025

Amser y cyfarfod: 13.30

# 285 (v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr Hywel, Tŷ Hywel ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

I ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru

Heledd Fychan (Canol De Cymru): Pa drafodaethau y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynglŷn â'r amgylchiadau a arweiniodd at ailddosbarthu rhaglen rheilffordd y dwyrain a'r gorllewin rhwng Rhydychen a Chaergrawnt o fod yn brosiect 'Lloegr yn unig' i fod yn brosiect 'Cymru a Lloegr'?

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 4 Datganiadau 90 eiliad

(5 munud)

## 5 Diddymu pwyllgorau

(5 munud)

**Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân**

**NDM8922** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi y cafodd y Pwyllgor Biliau Diwygio ei sefydlu ar 12 Gorffennaf 2023 at ddiben craffu ar y Biliau yn ymwneud â diwygio'r Senedd a gyfeiriwyd ato gan y Pwyllgor Busnes.
2. Yn nodi nad yw'r Pwyllgor Busnes yn bwriadu cyfeirio rhagor o faterion at y Pwyllgor.
3. Yn cytuno, yn unol â Rheol Sefydlog 16.3, y dylai'r Pwyllgor Biliau Diwygio ddod i ben.

**NDM8924** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi y cafodd Pwyllgor Senedd y Dyfodol ei sefydlu ar 16 Hydref 2024 i ystyried a chyflwyno adroddiadau erbyn 9 Mai 2025 ar: trefniadaeth busnes yn y Seithfed Senedd; rhwystrau i gyfranogiad cynrychiolwyr; a’r trothwyon a nodir yn y Rheolau Sefydlog.
2. Yn nodi bod y Pwyllgor wedi gosod ei adroddiadau ar 28 Chwefror 2025 a 9 Mai 2025.
3. Yn cytuno, yn unol â Rheol Sefydlog 16.3, y dylai Pwyllgor Senedd y Dyfodol ddod i ben.

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: Os yw'r Gefnogaeth yn Gywir, Amdani! Mynd i'r afael â'r Bwlch Cyflogaeth Anabledd

(60 munud)

**NDM8918** Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol: 'Adroddiad Blynyddol: 'Os yw'r Gefnogaeth yn Gywir, Amdani! Mynd i'r afael â'r Bwlch Cyflogaeth Anabledd' a osodwyd ar 6 Mawrth 2025.

Sylwer: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Mehefin 2025.

## 7 Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Yr Economi werdd

(60 munud)

**NDM8919** Andrew R.T. Davies (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar yr Economi Werdd, a osodwyd ar 14 Mawrth 2025.

Sylwer: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru yn y Swyddfa Gyflwyno 4 Mehefin 2025.

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Ynni solar

(60 munud)

**NDM8917** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cyhoeddi moratoriwm ar bob cais i osod paneli solar ar dir amaethyddol;

b) cynnal adolygiad o botensial ynni solar yng Nghymru; ac

c) datblygu strategaeth solar ar gyfer Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) parhau i gydweithio â datblygwyr ar gyfer prosiectau solar fel y bo angen, a hynny er mwyn sicrhau eu bod yn deall y polisïau cynllunio cadarn sydd mewn grym yng Nghymru; a

b) parhau i fynd i'r afael â'r gwaith ar y cynnig i'r sector ynni adnewyddadwy, a fydd yn cynnwys technolegau solar, gan barhau â gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Wynt ar y Môr.

## 9 Dadl Plaid Cymru - Adolygiad o wariant Llywodraeth y DU

(60 munud)

**NDM8923** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi y bydd Llywodriaeth y DU yn cyhoeddi casgliadau ei hadolygiad o wariant ar 11 Mehefin.

2. Yn gresynu bod penderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth Lafur y DU dros y flwyddyn ddiwethaf wedi cael effaith anghymesur ar Gymru.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i bwyso ar Lywodraeth y DU i gyflwyno bil tegwch economaidd sydd:

a) yn sicrhau cyllid teg i Gymru;

b) yn datganoli pwerau i greu bandiau treth incwm newydd; ac

c) yn cynyddu terfynau tynnu i lawr a phwerau benthyca yn unol â chwyddiant.

4. Yn galw ar Lywodraeth y DU i:

a) mynd i'r afael â'r tanfuddsoddiad hanesyddol yn seilwaith rheilffyrdd Cymru, ymrwymo i'r £4 billwn o gyllid canlyniadol HS2 a datganoli pwerau a chyllid dros seilwaith rheilffyrdd i Gymru;

b) adfer y taliad tanwydd gaeaf fel darpariaeth gyffredinol a chael gwared ar y cap budd-daliadau dau blentyn yn ddi-oed;

c) ad-dalu Llywodraeth Cymru yn llawn am effaith codiadau yswiriant gwladol cyflogwyr; a

d) cyflwyno treth ar gyfoeth, gan sicrhau bod y baich ar yr unigolion a’r corfforaethau sy'n gallu ysgwyddo cyfran decach o’r dreth gyffredinol a delir.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU, gan nodi'r goblygiadau i Gymru, ar ôl iddi ddadansoddi'r goblygiadau hynny, yn dilyn cyhoeddiadau ar 11 Mehefin.

**Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 2** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu popeth ar ôl pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cefnogi cyflwyno lwfans Tanwydd Gaeaf Cymru;

b) gwario codiad llawn Barnett ar gyfer iechyd, ar iechyd;

c) pwyso ar Lywodraeth y DU i wrthdroi'r cynnydd yng nghyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr;

d) pwyso ymhellach ar Lywodraeth y DU i ddiddymu'r dreth ffermydd teuluol; ac

e) cadarnhau y bydd symiau canlyniadol sy'n deillio o wariant HS2 yn cael eu gwario ar brosiectau Cymru yn unig.

## 10 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 17 Mehefin 2025

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 04/06/2025 i'w hateb ar 11/06/2025

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS YR ECONOMI, YNNI A CHYNLLUNIO

**Peter Fox** *Mynwy*

1 OQ62827 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o hyfywedd Maes Awyr Caerdydd yn y dyfodol?

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

2 OQ62821 **(w)** Tynnwyd yn ôl

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddarparu diweddariad ar ymrwymiad y Llywodraeth i ddatblygu banc cymunedol?

**Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

3 OQ62836 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i roi hwb i economi Dwyrain De Cymru?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

4 OQ62808 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am rôl prifysgolion o ran datblygu'r economi?

**Luke Fletcher** *Gorllewin De Cymru*

5 OQ62812 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau nad yw integreiddio deallusrwydd artiffisial yn y gweithle yn amharu ar hawliau gweithwyr?

**Altaf Hussain** *Gorllewin De Cymru*

6 OQ62828 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'u cael ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ynghylch goblygiadau'r ardoll ymwelwyr ar gyfer digwyddiadau mawr?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

7 OQ62834 **(e)** Tynnwyd yn ôl

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gynnal o effaith prosiectau ynni adnewyddadwy ar y tir mawr ar gymunedau?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

8 OQ62831 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad ar y gofynion cydsyniad cynllunio ar gyfer cynlluniau peilon mawr?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

9 OQ62815 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r sectorau celf a diwylliant ar draws Gorllewin De Cymru?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

10 OQ62811 **(e)**

Beth yw amserlen Llywodraeth Cymru ar gyfer uwchraddio darpariaeth rhyngrwyd o geblau copr i geblau ffeibr optig?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

11 OQ62841 **(w)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad ar bolisi Llywodraeth Cymru ar ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ar dir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

12 OQ62839 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella mynediad at chwaraeon i blant ag anableddau?

## YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

1 OQ62807 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad ar y cynllun gweithredu ar gyfer dementia?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

2 OQ62822 **(e)**

Pa gynlluniau sydd gan yr Ysgrifennydd Cabinet i fynd i'r afael â diagnosis hwyr canser y pancreas ac i sicrhau mynediad cynharach at offer diagnostig i gleifion?

**Luke Fletcher** *Gorllewin De Cymru*

3 OQ62814 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan Brif Swyddog Meddygol Cymru i ddiogelu iechyd diffoddwyr tân?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

4 OQ62826 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'i wneud o sut y mae'r contract optometreg newydd ar gyfer 2024-25 yn gweithio i gleifion?

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

5 OQ62817 **(w)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau cefnogaeth i fenywod sy'n profi poen neu gymhlethdodau yn sgil trinaethau iechyd?

**Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

6 OQ62829 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi darpariaeth cludo cleifion ysbytai gan y GIG yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

7 OQ62813 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad ar y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau achosion o farw-enedigaeth a marwolaeth newyddenedigol?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

8 OQ62838 **(w)**

Pa asesiad mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi ei wneud o berfformiad gwasanaethau iechyd meddwl ar Ynys Môn?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

9 OQ62837 **(e)**

Sut y mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn gweithio gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai i sicrhau bod gan ddatblygiadau tai newydd fynediad digonol at wasanaethau gofal sylfaenol?

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

10 OQ62824 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau gofal diwedd oes urddasol a thosturiol ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

11 OQ62823 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud o effeithiolrwydd y porth mynediad deintyddol?

**Hannah Blythyn** *Delyn*

12 OQ62830 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet roi diweddariad ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno gwasanaethau newydd mewn fferyllfeydd?